

Gwlad o Gyfle

Profi Sgiliau Cyd-drafod

Yn yr ymarfer hwn mae myfyrwyr yn gweithio mewn grwpiau o 5 a bydd yn cymryd o leiaf 90 munud yn cynnwys 50 munud o waith paratoi, 30 munud ar gyfer y cyd-drafod ei hun a 10 munud o adrodd yn ôl. Gallwch redeg efelychiadau niferus ar yr un pryd yn defnyddio'r nodwedd breakout yn teams.

Nodau Dysgu

- Deall pwysigrwydd paratoi'n effeithiol ar gyfer cyd-drafod.
- Dangos pwysigrwydd llunio dealltwriaeth glir o anghenion a theimladau wrth gyd-drafod, drwy holi a gwrando effeithiol.
- Dangos pwysigrwydd gwahanu pobl a phersonoliaethau o'r cyd-drafod.
- Cynnig cyfle i ymarfer sgiliau cyd-drafod a datrys problemau.

Grwpiau

Mae'r efelychiad yn cynnwys pobl yn gweithio'n unigol yn cynrychioli un o'r 4 parti sydd â diddordeb mewn datblygu'r tir. Mae angen 5 cyfranogwr ar bob efelychiad, sy'n cynnwys sylwedydd i adrodd yn ôl ar sut aeth y cyd-drafod o safbwynt niwtral. Os na allwch rannu eich dosbarth yn 5 yna gallech hepgor rôl y sylwedydd a/neu gael y myfyrwyr i weithio mewn pâr ar y dasg cyd-drafod.

Adnoddau

- Map i bob grŵp
- Cyfarwyddyd gwahanol i bob parti yn y grŵp
- Taflen waith cyd-drafod baratoadol i bob parti
- Taflen arsylwi i'r sylwedydd



Gwlad o Gyfle

Profi Sgiliau Cyd-drafod

Nodiadau Tiwtor

Mae Gwlad o Gyfle wedi'i gynllunio i brofi sgiliau cyd-drafod a dangos pwysigrwydd paratoi'n ofalus a meithrin dealltwriaeth drylwyr o anghenion a theimladau'r partïon eraill er mwyn dod i ddatrysiad sy'n fuddiol i bawb.

Yn yr efelychiad, mae unigolion yn ymgymryd â rôl cynrychiolydd un o'r partïon sydd â diddordeb mewn datblygu'r tir. Mae gan bob parti anghenion penodol, gyda rhai'n debygol o arwain at wrthdaro gyda'r partïon eraill. Dim ond drwy gydweithio a gwahanu'r bobl o'r broblem y caiff gwrthdaro ei osgoi gyda datrysiad sy'n foddhaol i bawb.

Does dim ateb cywir o ran sut i rannu'r map – mae'r dysgu'n dod o'r profiad o geisio dod o hyd i ddatrysiad sy'n dderbyniol i bob parti.

Paratoi ar gyfer yr efelychiad

Wrth baratoi ar gyfer yr efelychiad dylech benderfynu ar y sesiwn tiwtorial rydych chi am ei gynnal ynddi a rhannu'r dosbarth yn grwpiau o 5. Gallech ddymuno neilltuo rhai marciau cyfranogi'n benodol i'r dasg hon i sicrhau presenoldeb.

Yna bydd angen i chi ddosbarthu neu roi mynediad at gyfarwyddyd 1-4, un i bob cynrychiolydd (gan sicrhau bod gan bob cynrychiolydd gyfarwyddyd gwahanol) ynghyd â ffurflen paratoi i gyd-drafod. Ni ddylid rhannu'r taflenni cyfarwyddyd gyda chyfranogwyr eraill y cyd-drafod. Dylid cyfarwyddo'r dysgwyr i ddarllen y cyfarwyddyd a chwblhau'r paratoi ar gyfer cyd-drafod cyn y dasg. Os yw hyn yn rhy anodd ei drefnu, yna gallwch redeg y dasg heb baratoi a thrafod sut y gallai fod wedi mynd yn wahanol pe bai cyfle wedi bod ganddynt i baratoi.

Cyflwyno'r efelychiad

Esboniwch mai amcan y grŵp yw rhannu'r tir rhyngddynt, gan dalu sylw manwl i'w cyfarwyddyd i sicrhau bod anghenion y parti'n cael eu bodloni'n llawn. Os yw'r cyfarwyddyd yn nodi bod rhywbeth yn bwysig i'r parti, yna rhaid bodloni hyn er mwyn sicrhau datrysiad boddhaol.

Os nad ydych chi wedi gallu dosbarthu'r cyfarwyddyd cyn y sesiwn dylech wneud hynny nawr a rhoi amser i'r dysgwyr baratoi.

Dylid cyfarwyddo'r sylwedydd i arsylwi ymddygiad y cyfranogwyr yn ofalus a gwneud nodiadau fydd yn hwyluso adborth ystyrlon. Dylai'r sylwedydd ddefnyddio'r daflen arsylwi a ddarperir i gynorthwyo gyda hyn.

Mae ganddynt 30 munud i gytuno ar sut i rannu'r tir a nodi'r ffiniau ar y map.

Ar ôl 30 munud dewch â'r cyd-drafod i ben a gofyn i bob cyfranogwr dreulio rhai munudau'n adfyfrio ar y canlyniad. Yna dylid gwahodd sylwedydd pob grŵp i adrodd yn ôl ar sut yr aeth y trafodaethau. Gall grwpiau hefyd rannu eu profiadau a'u canlyniadau gyda'i gilydd